

Panel Adolygu Perfformiad y Prif Weithredwr

22 Mawrth 2023

Nodiadau'r Cyfarfod

Yn bresennol: Mr Tegryn Jones (Prif Weithredwr), Cyng Di Clements (Cadeirydd), Dr Rachel Heath-Davies (Is-Gadeirydd), a'r Cyng Steve Alderman (Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Gwasanaethau Corfforaethol)

1. Y panel yn adolygu nodiadau'r cyfarfod blaenorol a'r meysydd blaenoriaeth i'w trafod

Bu oedi o ran yr amserlenni y cytunwyd arnynt ar gyfer cwblhau'r ailstrwythuro ac adolygu'r cyflogau a'r graddfeydd erbyn mis Mawrth 2023, ac ers y cyfarfod adolygu diwethaf, roedd yr Awdurdod wedi derbyn Hysbysiad Gwella gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Bu'r Panel hefyd yn trafod yr angen i ddeall yr amserlen ar gyfer y Cynlluniau Cyflawni a'r modd y gallai'r amserlen hon gael ei heffeithio gan swyddogion sydd newydd eu penodi yn ymgyfarwyddo yn eu swyddi newydd. Mae'r swyddi newydd hyn yn bwysig o ran trawsnewid a chreu incwm. Mae angen deall lefel y gefnogaeth y mae uwch swyddogion yn ei roi, hefyd deall yr hyn y mae'r Rheolwr AD yn dymuno ei wneud? Mae hyn yn arwain at golli'r ffordd yn strategol i'r Parc.

2. Adroddiad ar Reoli Perfformiad y Prif Weithredwr am y chwarter

Ymunodd Tegryn Jones, y Prif Weithredwr, â'r cyfarfod a diolchodd y Cadeirydd iddo am ei adroddiad ysgrifenedig a gofynnwyd iddo gyflwyno'r prif bwyntiau fesul amcan, ac Aelodau'r Panel i godi cwestiynau yn ystod pob eitem.

Amcan 1 – datblygu cynlluniau ar gyfer hyfywedd ariannol yn y tymor byr, canolig a hir

Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod yn weddol gadarnhaol am y sefyllfa ariannol yn y dyfodol a'i fod yn disgwyl derbyn arian ychwanegol oddi wrth Lywodraeth Cymru os cydymffurfir â'r patrwm yn y gorffennol. Dywedodd fod dwy ffynhonnell ychwanegol o gyllid wedi'u sicrhau yn ddiweddar. Gofynnodd y Panel am eglurhad, a dywedwyd mai grantiau yw'r rhain y gwnaed cais amdanynt ac y llwyddwyd i'w sicrhau. Roedd hefyd yn rhagweld mwy o gyfleoedd i'r Awdurdod gael arian grant fis Mawrth neu yn y dyfodol agos.

Roedd materion hirdymor yn amlwg, yn enwedig y materion ariannol am y 12-18 mis nesaf. Bydd rhaid i'r swyddogion drafod gyda Llywodraeth Cymru fel y gellir sicrhau arian, ar ôl cyflwyno cyllidebau y cytunwyd arnynt. Gallai'r cyllid arfaethedig ar gyfer y llwybrau trafniadaeth Lonydd Glas a'r toiledau cyhoeddus yn y meysydd parcio, gael effaith sylweddol ar y diffyg ariannol yn y dyfodol, os gwneir i'r Parc ddod yn gyfrifol am y costau hyn sydd heb eu cyllidebu.

Mae posibilrwydd o dderbyn incwm newydd drwy'r rhaglen Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Gyda dau swyddog newydd yn cael eu cyflogi, bydd hyn yn flaenoriaeth i'w cyfrifoldebau. Mae angen i Ymddiriedolaeth Elusennol APCAP ail edrych ar eu gallu i godi arian. Rhaid i'r Parc dalu £50-60K am gynnal yr Ymddiriedolaeth ac ond yn derbyn £50K yn ôl. Yn gyffredinol bydd rhaid i'r gyllideb gynyddu incwm neu bydd rhaid lleihau'r costau.

Amcan 2 – Cwblhau'r ailstrwythuro ac adolygu'r cyflogau a'r graddfeydd erbyn Mawrth 2023

Eglurodd y Prif Weithredwr nad oedd wedi rhagweld maint yr heriau o ran staff ac amser ac eglurodd y byddai'r cyflogau a'r graddfeydd yn cael eu gohirio ymhellach oherwydd

ymddiswyddiad y rheolwr AD yn ddiweddar. Sicrhaodd y Panel fod arbenigwr AD interim yn cael ei gyflogi ac y byddai cyflogau a graddfeydd yn flaenoriaeth dros y misoedd nesaf.

Roedd dyddiad cwblhau'r broses Cyflogau ac Ailraddio wedi'i ymestyn. Roedd y broses wedi bod yn un eithaf araf, ac ychydig iawn o ddisgrifiadau swydd sydd wedi'u llunio gan y rheolwyr hyd yn hyn.

Bu'r Panel yn trafod arweinyddiaeth a rheolaeth y sefydliad a'r diwylliant. Awgrymodd yr Aelodau y byddai rhaglen o hyfforddiant ar arweinyddiaeth o fudd i'r aelodau newydd a phresennol o staff. Hefyd disgrifiodd y Prif Weithredwr y cyfarfodydd rheoli a'r strwythur llywodraethu newydd oedd yn ymwreiddio, gan gynnwys cyfarfod newydd ar gyfer y Tîm o Uwch Arweinwyr a rheolwyr canol i gymryd mwy o berchnogaeth a chydweithio'n agosach. Gofynnodd y Panel hefyd a oedd gan y Prif Weithredwr gefnogaeth ddigonol gan y Cyfarwyddwyr ac Aelodau'r Awdurdod.

Gofynnodd yr Aelodau hefyd am adolygiad o'r monitro perfformiad a'r drefn o gyflwyno adroddiadau i'r Aelodau, ac y byddai o fudd cael dangosfwrdd o'r dangosyddion allweddol ac adroddiad sy'n canolbwyntio ar y meysydd blaenoriaeth i'r Aelodau eu trafod yng nghyfarfodydd yr Awdurdod. Eglurodd y Prif Weithredwr bod proses newydd o gyflwyno adroddiadau a system o gael Dangosfwrdd Perfformiad ar y gweill.

Trafodwyd yr achos iechyd a diogelwch a ddigwyddodd yn ddiweddar, a phwysleisiwyd gan y Prif Weithredwr bod hyn yn fater i bawb yng ngweithlu'r Parc gymryd cyfrifoldeb amdano. Gofynnodd yr Aelodau hefyd am eglurhad ynghylch ai'r rheolwyr Adnoddau Dynol sy'n gyfrifol yn y pen draw am fonitro iechyd a diogelwch. Eglurodd y Prif Weithredwr hefyd bod ymgynghorydd yn mynd i gael ei benodi i fod yn bennaeth ar y cynllun gweithredu ynghylch y Syndrom Dirgryniad Llaw Braich.

Ymdriniwyd ag Amcan 4 ar iechyd a lles staff fel rhan o'r eitem uchod.

Amcan 3 – Mynd i'r afael â'r newid hinsawdd

Roedd adroddiad y Prif Weithredwr yn hunanesboniadol ac ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau pellach.

Amcan 5 – gweithio gyda rhanddeiliaid allanol

Roedd adroddiad y Prif Weithredwr yn gynhwysfawr ac ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau pellach.

Bu'r Panel yn trafod adroddiad Archwilio Cymru ar lywodraethu, a hefyd y llythyr yn rhybuddio y cynhelir archwiliad ariannol yn ddiweddarach eleni, ac amlinellwyd y goblygiadau, a bydd y Prif Weithredwr yn rheoli'r goblygiadau hynny.

Cafwyd trafodaeth hefyd ar y modd y mae'r Aelodau yn cydweithio â'r swyddogion a'r drefn o sefydlu Aelodau newydd.

3. Amcanion ar gyfer y cyfnod nesaf o gyflwyno adroddiad

Trafodwyd a chytunwyd ar yr amcanion fel a ganlyn:

- i. Datblygu cynlluniau i gwrdd â'r heriau ariannol tymor byr, canolig a hir, gyda'r nod o ymdrin â'r diffyg a ragwelir dros y tair blynedd nesaf. Hyn i gynnwys:
 - a. Cynnal proses gyllidebu ar sail sero i bennu cyllideb 2024-25;
 - b. Datblygu strategaeth model cynhyrchu incwm/cyllid cynaliadwy, erbyn Rhagfyr 2023;

- c. Clustnodi ffyrdd o greu'r incwm mwyaf posibl gan Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro; a
- d. Datblygu modelau ariannu cynaliadwy ar gyfer senarios realistig dros y tair blynedd nesaf, erbyn mis Hydref 2023.

ii. Cwblhau'r Adolygiad Cyflogau a Graddfeydd, cyn gynted â phosibl.

iii. Datblygu Cynllun Corfforaethol newydd a Chynlluniau Cyflawni ategol, sy'n amlinellu'n glir y modd y mae pob elfen yn cyfrannu at y strategaeth gorfforaethol, erbyn mis Hydref 2023. Mae hyn yn cynnwys cyfathrebu'r strategaeth yn eang yn fewnol ac yn allanol a'r gwaith o wreiddio'r strategaeth dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf fel ei bod yn ymdreiddio drwy'r gwaith a ffocws y staff a'r Aelodau.

iv. Cefnogi a dal rheolwyr i gyfrif i sicrhau bod yr Awdurdod yn mabwysiadu diwylliant o gyfrifoldeb ac atebolrwydd sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at iechyd a lles pob aelod o staff ac yn sicrhau eu bod yn gweithio'n ddiogel. Bydd hyn yn cynnwys datblygu rhaglen o ddysgu a datblygu Arweinyddiaeth a Rheolaeth.

v. Gweithio gyda phartneriaid ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol i barhau i godi proffil yr Awdurdod a dylanwadu ar bolisiâu ar draws y meysydd blaenoriaeth a amlinellir ym mlaenoriaethau'r Awdurdod; a

vi. Sicrhau bod cymorth a hyfforddiant yn cael eu darparu i'r Aelodau i alluogi pawb i gyfrannu at waith yr Awdurdod tra'n cwrdd â safonau uchel o lywodraethu.